



Angen brys am fuddsoddi  
yn nyfodol pobl ifanc ac  
adferiad natur

# Cyd-destun

Wrth i gymdeithas ddechrau dod allan o argyfwng iechyd Covid-19, mae disgwyl i hyd at dair miliwn o bobl fod yn ddi-waith. Mae effaith economaidd Covid-19 wedi bod yn eithriadol heriol eisoes i bobl ifanc; mae'r nifer sydd allan o waith ar y lefel uchaf eisoes ers 2015<sup>1</sup>. Mae hyn yn cynnwys cenhedlaeth o **filiwn o bobl ifanc** sy'n wynebu dyfodol o gyfleoedd bywyd sydd wedi'u heffeithio'n ddifrifol.

Ymhlith yr heriau enfawr a ddaeth yn sgil y pandemig hwn, mae cyfle strategol i **ymgorffori twf economaidd cynaliadwy mewn adferiad economaidd**. Mae cynghorydd y Llywodraeth ei hun ar newid yn yr hinsawdd wedi datgan y dylai **buddsoddi ym myd natur fod yn flaenoriaeth<sup>2</sup>** - gan gynnwys cynnig llwybr cyflym at gyfleoedd cyflogaeth hynod fedrus, a hefyd gwella bywydau pobl a mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae cysylltu'r uchelgeisiau â phontio i economi carbon isel a chefnogi cyflogaeth ieuencid yn golygu y bydd buddsoddi nid yn unig yn creu miloedd o swyddi i bobl ifanc, ond hefyd yn creu adnoddau newydd i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

**Gall prosiectau amgylcheddol gynniog atebion i fynd i'r afael â'r argyfwng diweithdra ymysg pobl ifanc**, wrth i bandemig y coronafeirws ddangos ei effaith, a'r argyfwng natur. Mae mentrau newydd y Llywodraeth (fel Kickstart, sydd ar gyfer pobl ifanc sy'n wynebu risg uchel o ddiweithdra tymor hir, a'r Gronfa Her Adferiad Gwyrdd, sy'n creu swyddi ym maes adferiad a chadwraeth natur) yn dechrau canolbwyntio ar greu swyddi drwy gefnogaeth ariannol wedi'i thargedu. Bydd y mentrau hyn yn cyfrannu'n fras at leihau effeithiau cyflogaeth negyddol Covid-19 ar bobl ifanc, ac mae Our Bright Future yn eu croesawu – ond **rydym yn annog y Llywodraeth i gynyddu ei huchelgais**.

Mae'n hanfodol cysylltu rhaglenni cyflogaeth ieuencid fel Kickstart yn llawer agosach ag elusennau amgylcheddol ledled y DU. Yn bwysicaf oll, rhaid rhoi **pecyn cyllido cynaliadwy** ar waith i fuddsoddi'n wirioneddol yn nyfodol pobl ifanc yn y tymor hir. A rhaid seilio'r dull gweithredu ar degwch a chydaddoldeb, er mwyn galluogi cenhedlaeth newydd o bobl ifanc i ddod o hyd i swyddi a gyfaoedd sydd o fudd i'r amgylchedd, iddynt hwy eu hunain ac i'r gymdeithas ehangach.

Mae sector yr amgylchedd yn barod i weithio gyda'r Llywodraeth i ddatblygu cyfleoedd newydd ar gyfer rhaglenni swyddi a hyfforddiant amgylcheddol

Mae Our Bright Future, partneriaeth uchelgeisiol ac arloesol dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur sy'n dod â'r sectorau ieuencid ac amgylcheddol at ei gilydd, wedi comisiynu adroddiad ar gefnogaeth i bobl ifanc i ddilyn gyrfaoedd yn llwyddiannus yn y sector amgylcheddol.

Canfu'r adroddiad, sydd ar gael yn llawn ar wefan Our Bright Future<sup>3</sup>, bod cynlluniau hyfforddi gyda chyllid tymor hir yn llwybrau bwydo hanfodol i bobl ifanc gael gwaith. Daw'r ystadegau canlynol o'r canfyddiadau yn yr adroddiad.

### Effaith prosiectau amgylcheddol ar hyder, sgiliau a chyflogadwyedd pobl ifanc<sup>4</sup>

95%

o hyfforddeion wedi dysgu sgiliau newydd a fydd yn helpu gyda chyflogadwyedd (Ymddiriedolaeth Natur Llundain - Keeping It Wild)

98%

o gyfranogwyr yn teimlo'n fwy hyderus am symud i waith llawn amser (rhaglen Arweinyddiaeth Amgylcheddol Uprising)

78%

o gyfranogwyr wedi gwella eu hyder (Ymddiriedolaeth Venture)

75%

gyfranogwyr wedi cynyddu eu hamrywiaeth o sgiliau cyflogadwyedd (Ymddiriedolaeth

### Effaith prosiectau amgylcheddol ar gynnydd pobl ifanc i gyflogaeth<sup>5</sup>

92%

o hyfforddeion wedi mynd ymlaen i gyflogaeth yn y sector cadwraeth neu addysg bellach (rhaglen hyfforddeion The Conservation Volunteers Natural Talent UK)

60%

o gyfranogwyr wedi symud i gyflogaeth llawn amser (rhaglen Arweinyddiaeth Amgylcheddol Uprising)

82%

o unigolion â hyfforddiant ar lefel uchel yn gyflogedig yn y sector nawr (rhaglen Sgiliau ar gyfer y Dyfodol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol)

Symudodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr ymlaen i yrfaoedd yn sector yr amgylchedd (rhaglen Tomorrow's Natural Leaders Ymddiriedolaeth Natur Sir Efrog)

19 allan o 21 o gyfranogwyr mewn cyflogaeth neu addysg bellach (rhaglen Tomorrow's Natural Leaders Ymddiriedolaeth Natur Sir Efrog)

3 mis ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, 24 p o gyfranogwyr mewn cyflogaeth a 4 mewn addysg bellach (rhaglen Partneriaeth Sgiliau Gwledig Fife)

<sup>1</sup> IPPR, Rescue and Recovery: COVID-19, jobs and income security, 2020. Mynediad drwy: <https://www.ippr.org/files/2020-08/rescue-and-recovery-august20.pdf>

<sup>2</sup> Gall COVID-19 fod yn drobwynt hanesyddol mewn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang

<sup>3</sup> <https://ourbrightfuture.co.uk/wp-content/uploads/2020/09/Support-for-young-people-to-work-in-the-environmental-sector-research-report-FINAL.pdf>

<sup>4</sup> Ffigurau o adroddiad a gomisiynwyd gan Our Bright Future – Cefnogaeth i bobl ifanc i weithio yn y sector amgylcheddol: Adolygiad ymchwil, Simon Nash, 2020

<sup>5</sup> Ffigurau o adroddiad a gomisiynwyd gan Our Bright Future – Cefnogaeth i bobl ifanc i weithio yn y sector amgylcheddol: Adolygiad ymchwil, Simon Nash, 2020

# Economi wyrddach yn economi gadarnach

Wrth fynd i'r afael â'r argyfwng economaidd sydd wedi'i achosi gan Covid-19, mae angen brys am symud at economi wyrddach, a fydd yn diogelu ac yn adfywio'r amgylchedd, ac yn cynnal y bobl sy'n dibynnu arno'n well. Mae bylchau cynyddol mewn sgiliau a gallu yn sector yr amgylchedd, a phrinder cyfleoedd cyflogaeth diogel i bobl ifanc, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig.

**Rydym yn annog y Llywodraeth i gynyddu ei huchelgais o ran cefnogi pobl ifanc ac adfer natur. Mae angen i ni weld y canlynol:**

- 1. Rhaglenni tymor hir cynaliadwy sy'n cael eu cyllido'n dda ac yn rhoi swyddi a hyfforddiant i bobl ifanc yn y sector amgylcheddol**
- 2. Cysylltiad cryfach rhwng rhaglenni cyflogaeth ieuenctid fel Kickstart ac elusennau amgylcheddol ledled y DU**
- 3. Cyfleoedd sy'n gwbl gynhwysol drwy amrywiaeth o swyddogaethau sy'n gwella gwerth natur i gymdeithas**
- 4. Cynnwys pobl ifanc yn ysturlon yn yr atebion economaidd i Covid-19 ar lefel leol a chenedlaethol. Rhaid i'r cyfranogiad hwn gynnwys pobl ifanc nad ydynt yn cael eu clywed yn aml ac sy'n 'hawdd eu hanwybyddu'**

Mae economi wyrddach yn economi gadarnach. Wrth i ni edrych i'r dyfodol, mae'n hanfodol ein bod yn symud tuag at economi sydd wedi'i chynllunio i ddiogelu yn ogystal ag adfywio byd natur, ac i gynnal ein cymdeithas sydd mor ddibynnol ar natur.

Byddai rhaglen swyddi a hyfforddiant ddeinamig wedi'i chyllido'n dda yn ffordd effeithiol o feithrin y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar bobl ifanc i sicrhau'r swyddi a fydd yn rhan o wneud i hyn ddigwydd.

Mae Our Bright Future yn bartneriaeth uchelgeisiol ac arloesol dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur sy'n dod â'r sectorau ieuenctid ac amgylcheddol at ei gilydd. Mae'r rhaglen bum mlynedd hon sy'n cael ei chyllido gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn cynnwys 31 o brosiectau ledled y DU. Mae pob prosiect yn helpu pobl ifanc 11 i 24 oed yn uniongyrchol i ennill sgiliau a phrofiad hanfodol ac yn gwella eu lles. Ar yr un pryd, maent yn gweithredu fel catalydd ar gyfer sicrhau newid yn eu hamgylchedd a'u cymuned leol; gan gyfrannu hefyd at economi wyrddach.